

# Rhan y Merched

Y peth mwyaf amlwg am ferched yn y Rhyfel Byd Cyntaf yw nad oedd sôn amdanynt ym mhenawdau'r papurau newydd. Agorwyd YMCA ar gyfer busnes yn Rhuddlan yn 1915 "a'r milwyr o Barc Cinmel a'r ffatri arfau yn y ffoundri wedi mynegi eu diolch am y ddarpariaeth hon sydd wedi ei wneud ar gyfer eu cysur". Mae'n cael ei gofnodi ei fod "o dan oruchwyliaeth Mr Clarke a nifer o ferched".

Fel roedd yr angen am fwy o filwyr yn cynyddu, dechreuodd erthyglau'r papur newydd a phosteri i dargedu'r merched i annog eu gŵyr, ffrindiau a meibion i ymrestru. "Gallwn annog ein ffrindiau a'n perthnasau i ymrestru yn y Fyddin a'r Llynges heb ei gwneud yn anodd iddynt drwy alar a gofid", ysgrifennodd Georgina Pennant yn y Flintshire Observer. Cyhoeddwyd lwfansau ariannol wythnosol ar gyfer gwragedd y milwyr a'u dibynyddion i geisio sicrhau na fyddai teuluoedd yn dioddef unrhyw galedi gormodol tra roedd y prif enillydd cyflog i ffwrdd yn y rhyfel. Ar yr un pryd roedd y merched yn cael eu hannog i fuddsoddi eu cynilion mewn Benthyciadau Rhyfel er mwyn helpu ariannu'r rhyfel.



Yn y blynyddoedd cyn y rhyfel roedd merched wedi bod yn ymgyrchu i gael y bleidlais ac yn mynegi eu barn wleidyddol yn fwy cyhoeddus. "Ar nos lun diddanodd Yr Anrhydeddus Mary Hughes tua 200 o aelodion o gangen Women's Unionist and Tariff Reform Association y Rhyl gan annog, yn ei hanerchiad fel llywydd, bod hi'n ddyletswydd ar y dosbarth breintiedig i astudio gwleidyddiaeth oherwydd bod y llong Wladol mewn sefyllfa wan. Gallai merched wneud llawer iawn ac apeliodd arnynt i weithio. Dywedodd Mrs Boyce o'r Swyddfa Ganolog y dylai merched ymdrechu i roi cyfarwyddyd i'r dynion annysgedig mewn gwleidyddiaeth, oherwydd yr annysgedig fydd yn abwyd i'r cynhyrfwr cyntaf a ddaw ar ei draws". Roedd gan y Gymdeithas 23 o ganghennau yn y Sir, cyfanswm aelodaeth 2,786, gyda'r Rhyl y cryfaf hefo 239. Yn 1914, ar achlysur ei phriodas, "derbyniodd Miss Mary Parry, merch Cyrnol a Mrs Parry, Plas Pengwern, hambwrdd arian gan Gymdeithas Undebol Merched Rhuddlan gan ei bod wedi bod yn aelod gweithgar am lawer o flynyddoedd. Ei mam yw llywydd y gymdeithas." Cyflwynwyd yr hambwrdd gan Miss Lacey o Banquet House a Miss Eynon o Hylas.

Hyd yn oed cyn y rhyfel roedd addysgu wedi bod yn swydd barchus i ferched. Datgelodd llyfr log Pennaeth Ysgolion Rhuddlan mai merched oedd llawer o'r athrawon - merched a roddodd wasanaeth hir a ffyddlon. Yn ôl traddodiad gadawsant yr ysgol ar ôl priodi ond fe newidiodd y rhyfel hyn ac aeth nifer ohonynt yn ôl i addysgu, er yn Rhagfyr 1916 cofnododd y Denbighshire Free Press i Miss Alice Davies, o Leith House, athrawes yn yr Ysgol Genedlaethol adael ar ôl naw mlynedd i briodi.

Yn ôl y papurau newydd fe gymerodd y gwragedd yr awenau fel trwyddedigion tafarndai lleol oddi wrth ei gwŷr “a oedd wedi cael ei galw fyny i’r gwasanaeth”. “Cafodd drwydded y Mariners’ Arms, Rhuddlan, ei drosglwyddo oddi wrth Samuel Crowther i’w wraig”. Cyn y rhyfel, yn ôl Bennett’s Business Directory dim ond tair dynes busnes oedd yn Rhuddlan: Mrs Evans y bostfeistres, Miss Williams siop bapur newydd a Mrs Evans perchennog ystafell de ar y Stryd Fawr, tra bod y cyfrifiad yn 1911 yn cofnodi merched yn gweithio fel morynion, golchi dillad, gwnïo, gwaith llaeth ac un fel “cynorthwydd i’w gŵr”.

Cymerodd y merched lawer o weithgareddau ychwanegol yn ystod amser y rhyfel. Roedd hi’n ofynnol ar yr Arglwydd Raglaw, Mr Henry Neville Gladstone yn 1915 i dynnu rhestr o’r holl ferched a weithiai mewn arfau rhyfel, nyrso ac ar y tir. Roedd gwaith llaeth a gwaith dyfednod bron yn gyfan gwbl yn nwylo merched. Chwaraeodd Byddin Tir y Merched rhan bwysig mewn gwaith gwartheg a cheffylau, cynaeafu a chodi tatws ac yn 1917 trefnwyd cyfarfod Prawf Effeithlonrwydd Gogledd Cymru yn Fferm Llewellyd ar y ffordd rhwng Rhuddlan a Gallt Melyd trwy ganiatâd caredig Mr Snelson. Roedd hyn yn cynnwys “godro, aredig ceffylau, aredig tractor, prawf wagenwr (harneisio a gyrru ceffyl sengl mewn wagen 4-olwyn), toi gwellt, tocio gwrychoedd, cloddio ffosydd, palu a thocio coed ffrwythau.” Daeth cystadleuwyr o bob rhan o Ogledd Cymru a chafodd y digwyddiad ei gofnodi yn y Manchester Guardian. Hysbysebwyd bod “merched ar gael i lafurio ar y fferm - chwynnu ŷd, codi maip a mangolds”. Am 5c yr awr i weithwyr profiadol a 4½c i rai amhrofiadol, cafodd y ffermwyr ei hannog i “roi cynnig iddynt”. Pwysleisiodd yr Arglwydd Raglaw’r pwysigrwydd o ddefnyddio gwasanaethau’r merched mewn gwaith fferm lle bynnag bosib ac arhosodd nifer ohonynt ar ôl y rhyfel gan briodi’r ffermwyr a oedd yn gwerthfawrogi eu sgiliau niferus.

Fe ddechreuodd Ffowndri Rhuddlan gynhyrchu arfau rhyfel gan wneud gorchudd peli ffrwydrol ddydd a nos. Unwaith eto camodd y merched i mewn gan gymryd gwaith yn y Ffowndri. Ar draws y wlad roedd merched yn cael eu cyflogi mewn gwaith arfau rhyfel peryglus ac yn Chwefror 1916 fe gyhoeddwyd llyfryn ar Gyflogi Merched gan y Weinyddiaeth arfau.



Francis Corbett gyda gweithwyr arfau benywaidd, 1916

Fel roedd y rhyfel yn llusgo ymlaen daeth maint yr anaf a’r golled yn amlwg a’r merched yn pryderu am eu teuluoedd a’u dyfodol. Yn 1917 ymddangosodd enw Mrs Vaughan a oedd newydd gollu ei gŵr, yn y wasg, am ei fod rŵan wedi colli ei fab. Dangosodd y llythyr hwn a gyhoeddwyd yn y Denbighshire Free Press fel roedd y gwragedd, chwiorydd a mamau ar draws Prydain yn dioddef o gollu neu fyw mewn ofn o gollu eu hanwyliaid -

“Annwyl Mrs Vaughan,

Rwyf newydd weld... cyhoeddiad am farwolaeth eich mab, Dr R W W Vaughan. Rydym... yn gofidio wrth sylwi ei fod wedi ei ladd mewn brwydr ac rydym yn estyn ein cydymdeimlad dwys i chi. Yn wir, mae'n derfyn urddasol ar fywyd urddasol.”

Roedd codi arian i raddau helaeth yn rôl i ferched ac mae'n amlwg yn y cyd-destun hwn bod enwau merched yn fwy helaeth yn y wasg. Mrs Parry o Bengwern ddaeth yn drefnydd yn Rhuddlan i'r Sefydliad Cymorth Gwirfoddol Sir Y Fflint i helpu milwyr gwael a chlwyfedig. Cefnogwyd Clafdy Sir Ddinbych gan gasgliadau Rhuddlan ac yn 1914 fe gofnodwyd bod Miss I W Jones, gyda chymorth Miss Massey, Miss E M Edwards a Miss Olwen Parry wedi casglu £2 a 10s 5c. Ym mis Rhagfyr 1915 fe gynhaliwyd noson gymdeithasol yn Ystafell Darllen a Hamdden gan Mrs Maxwell lle casglwyd £12 tuag at Weithgor Rhuddlan ar Gyfer Cysur i'r Milwyr. Cynhaliwyd nifer o ddyddiau gwerthu baneri llabed papur gan y merched i gynorthwyo milwyr Rwsia, Gwlad Belg a Ffrainc yn ogystal â milwyr Prydeinig. Ym mis Hydref 1914 apeliwyd at ferched i fynd at bobl oedd yn ysmegu a gofyn iddynt roddi sigarét yn y blwch tun a oedd ganddynt ar gyfer Cronfa'r Milwyr. Roedd gan bob sefydliad gylch gwnïo a gwau a rhwng 1914 a 1915 anfonodd Clwb Merched Maes Dyserth dros 1,650 o grysau, mwffleri, menig, sanau a hetiau i ddynion ar y ffrynt.

Er gwaethaf neu efallai oherwydd amser caled, roedd y bobol yn dal i fwynhau'r celfyddydau. Hysbysodd Cecilia Anwyl, athrawes piano, y buasai yn teithio'n wythnosol o Wallasey i roi gwersi piano. Cynhaliodd Band of Hope Rhuddlan de ac adloniant byrfyfyr yn yr Ysgol Uchaf “a oedd yn rhoi llawer o hwyl a boddhad” a'r noson yn dod i ben gyda phawb yn “canu'n ddiffuant anthemau Cenedlaethol Rwsia, Ffrainc a Lloegr”. Ymhlith y rhai sydd wedi eu rhestru yn cymryd rhan oedd Maggie Smith, Vera Thompson, Kate Pritchard, Lena Jones, Blanche Jones a Myfanwy Jones. Daeth y gantores enwog Madam Clara Butt i berfformio ym Mhafiliwn Y Rhyl ar ddydd Llungwyn Mai 20fed ac i wneud teithio'n ôl i Ruddlan yn haws iddi fe ddarparwyd modur ar ôl y cyngerdd.

Ar ôl y rhyfel mae'n amlwg, er gwaethaf y swyddogaethau ychwanegol a gymerwyd yn ystod y rhyfel, nad oedd llawer o gynnydd mewn enwau merched a restrir yn y cyfeiriadur masnach leol. Roedd Mrs T Evans yn dal swydd postfeistres a Mrs Roberts yn groser yn Stryd y Castell. Merched eraill gyda'u henwau ar y rhestr oedd Miss Britland, Mrs Jones a Miss Williams a oedd yn gweithio fel cyffeithwyr neu ddarparu lluniaeth mewn ystafelloedd te.

Mae'n amlwg o'r hyn sydd wedi ei gofnodi bod merched yn ardal Rhuddlan wedi cymryd rhan weithredol yn ystod y rhyfel yn ogystal â'r rôl hanesyddol o gefnogi'r dynion yn eu bywydau. Er bod rhai merched yn cael pleidleisio yn 1918 darganfu'r merched ifanc a oedd wedi gweithio gydag arfau rhyfel neu ar fferm yn ystod y rhyfel nad oeddynt yn gallu pleidleisio oni bai eu bod yn 30 mlwydd oed ac yn briod i bleidleisiwr neu yn berchennog eiddo neu yn fyfyrwr graddedig a oedd yn pleidleisio mewn etholaeth yn y Brifysgol. Roedd rhaid i fenywod dros 21 aros tan 1928. Byddai hawliau merched a phroffesiynau a dderbynnir gan y gymdeithas yn newid ar ôl y rhyfel ond yn araf y digwyddodd hyn.